Bwrdd Cymwysterau Cymru

QWB20.2 - Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2019

.

Presennol:
Ann Evans (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths.

Hefyd yn bresennol:
Helen Bushell (HB), Jo Richards (JR), Joanne Nicholas (JN), Kerry Price (KP) – eitem 5, Liz Frizi – Eitem 9, Rebecca Olney (RO) - Llywodraeth Cymru.

Ymddiheuriadau:
Claire Morgan, Arun Midha, Kate Crabtree, Alison Standfast.

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan nodi ymddiheuriadau gan Claire Morgan, Arun Midha, Kate Crabtree ac Alison Standfast.

1.2. Ceisiwyd datganiadau o fuddiant. Nododd ED, fel rhan o'i rôl anweithredol gyda Llywodraeth Cymru, ei bod yn aelod o'i phwyllgor cyllid a phwyllgor cydnabyddiaeth. Nododd y Cadeirydd fod Claire Morgan wedi newid ei rôl yn ddiweddar a'i bod bellach yn gweithio i Brifysgol Caerdydd. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau eraill yn ychwanegol at y rhai y rhoddwyd gwybod amdanynt eisoes.

1.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw faterion yr hoffent eu trafod o'r papurau gwybodaeth. Cytunwyd i drafod yr adroddiad rheoli risg yn y prif agenda. Gofynnodd y Bwrdd hefyd am y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch i recriwtio Cadeirydd. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod yn bwriadu cwmpasu hyn yn ei diweddariad gan y Cadeirydd (eitem 3).

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2018 a'r Materion sy'n Codi

2.1. Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2018 eu cadarnhau fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fân newidiadau. Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl iddynt gael eu cyfieithu.

2.2. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu yn y cofnodion, yr oeddent i gyd wedi'u cwblhau.

Materion sy'n Codi

2.3. Gofynnodd y Bwrdd am y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru. Cadarnhaodd RO fod hyn yn rhan o'r trafodaethau ar gyfer

cyllideb 2019-2020 a oedd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn Llywodraeth Cymru.

2.4. Gofynnodd y Bwrdd am Wobrau Go (ym maes caffael) – cadarnhaodd PB y cawsom ein cynnwys ar y rhestr fer ond na wnaethom ennill y wobr. Roedd PB yn falch bod y gwaith wedi cael cydnabyddiaeth.

2.5. Gofynnodd y Bwrdd a oedd y cymorth TG i'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL) yn mynd rhagddo, a chadarnhaodd PB ei fod yn mynd rhagddo a bod cytundeb lefel gwasanaeth wedi cael ei lofnodi.

2.6. Nododd y Bwrdd nad oedd y polisi Amodau Trosglwyddo ar yr agenda. Cadarnhaodd HB fod ymgynghoriad wedi'i gwblhau ac y bwriedir ei rannu â'r Pwyllgor Rheoleiddio ym mis Chwefror cyn dychwelyd y polisi i'r Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion gan nodi mân addasiadau.
ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

3. Adroddiad/Diweddariad gan y Cadeirydd

3.1. Roedd y Cadeirydd wedi creu PowerPoint er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gweithgareddau diweddar i'r Bwrdd. Roedd ei gweithgareddau diweddar yn cynnwys craffu ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Addysg Plant a Phobl Ifanc, cyfarfod ag Aelodau Cynulliad, rhoi cyflwyniad i Fwrdd y CCEA yn Belfast, mynychu fforwm y Cyrff Dyfarnu a gwobrau Prentisiaeth Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.

3.2. Amlinellodd y Cadeirydd rai o'r newidiadau dros dro i'r Pwyllgor Adnoddau ac i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, lle y bydd aelodau'r Bwrdd yn ymuno ar gyfer y cyfarfod neu ddau nesaf nes i aelodau newydd y Bwrdd ddechrau (rhagwelir y bydd hyn ym mis Ebrill/Mai). Gwnaeth y Cadeirydd hefyd gadarnhau bod cyfrifydd wedi'i gyd-ethol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg er mwyn darparu arbenigedd byrdymor, eto tra bydd aelodau newydd o'r Bwrdd yn cael eu recriwtio. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr aelod cyd-etholedig o gorff sector cyhoeddus ac yn meddu ar brofiad helaeth yng Nghymru.

3.3. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Cytundeb Fframwaith â Llywodraeth Cymru bron wedi'i gwblhau a bod ei chyfarfodydd un i un blynyddol ag aelodau'r Bwrdd fel rhan o'r adolygiad o berfformiad yn mynd rhagddynt.

3.4. Gofynnodd y Cadeirydd i HB roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch recriwtio i'r Bwrdd. Cadarnhaodd HB fod yr hysbysebion ar gyfer y ddau aelod Bwrdd (cwricwlwm a chyllid) wedi dod i ben a bod cyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer 18 Chwefror; cafwyd cryn dipyn o geisiadau. Gwnaeth HB hefyd gadarnhau bod y broses recriwtio ar gyfer rôl y Cadeirydd ar y gweill ac y disgwylir iddi redeg am gyfnod o 4 i 6 wythnos. Cafwyd rhywfaint o oedi yn Llywodraeth Cymru, ond roedd

HB yn hyderus y byddai'r broses yn gweithredu o fewn yr amserlen a drefnwyd, a bwriedir i'r panel gyfarfod ym mis Ebrill. Cadarnhaodd HB fod yr asiantaeth recriwtio wedi dechrau ei gwaith paratoi yn barod i'r hysbyseb fynd yn fyw. Gofynnodd y Bwrdd a oedd HB o'r farn y dylid diweddaru'r gofrestr risg er mwyn adlewyrchu'r risg gynyddol o oedi. Cytunodd HB i adolygu'r risg dros yr wythnos nesaf a phenderfynu a oedd yn teimlo bod angen gwneud unrhyw newidiadau. Roedd y pwynt mewn perthynas â risg yn ymwneud â'r papur gwybodaeth roedd y Bwrdd am ei godi yn unol â pharagraff 1.3.

3.5. Diolchodd y Bwrdd i'r Cadeirydd am yr adroddiad a nododd y diweddariad.

Cam gweithredu HB i ystyried a oedd angen gwneud unrhyw newid i'r gofrestr risg mewn perthynas â recriwtio Cadeirydd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd gynnwys cyffredinol diweddariad y Cadeirydd gan gynnwys y newidiadau dros dro i'r Pwyllgorau.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

4.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol gan nodi ei fod yn cwmpasu eitemau nad ydynt yn ymddangos rywle arall ar agenda'r Bwrdd.

4.2. *Prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol – n*ododd PB fod y prosiect yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol a bod rhanddeiliaid allweddol wedi datblygu'r cynnwys gofynnol yn unol â'r amserlenni gofynnol. Roedd hyder bellach yn uwch a byddai'r gweithgareddau cyfathrebu a rheoli newid bellach yn mynd rhagddynt yn gyflym. Roedd y sylw yn dechrau troi at y gwaith o ddatblygu'r gofynion ar gyfer cymwysterau Lefel 4 a 5. Bu'n rhaid oedi'r gwaith o ddatblygu'r rhain tra roedd cymwysterau Lefel 2 a 3 yn cael eu blaenoriaethu.

4.3. *Cynllun Iaith Gymraeg* – nododd PB, fel y trafodwyd gan y Bwrdd yn flaenorol, nad oedd wedi bod yn ofynnol i Cymwysterau Cymru gydymffurfio â Deddf Iaith Gymraeg 1993 hyd yma, a llunio Cynllun Iaith Gymraeg neu gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn ystod mis Rhagfyr 2018, gwnaeth staff gyfarfod â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a gofynnwyd i'r sefydliad lunio Cynllun Iaith Gymraeg yn wirfoddol drwy ddefnyddio Deddf Iaith Gymraeg 1993 fel model ar gyfer y cais hwn. Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw bwerau statudol i orfodi Cymwysterau Cymru i lunio cynllun ac ni fyddai gofyniad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn berthnasol hys nes y bydd Bil newydd wedi cael ei basio drwy Lywodraeth Cymru i ddwyn gweddill yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru o dan y ddeddfwriaeth. Os bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi Cynllun, byddai'n ofynnol i ni ei fonitro a llunio adroddiad blynyddol i'r Comisiynydd ar ein perfformiad yn erbyn y mesurau. Ar ôl ystyried y cais, roedd y Pwyllgor Gweithredol o'r farn y dylem fynd ati i ddatblygu a chyhoeddi cynllun ddiwedd mis Mawrth, fel sy'n ofynnol gan y Comisiynydd, ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd yn ystod ei gyfarfod ym mis Mawrth. Gofynnodd PB am gymorth y Bwrdd gyda'r dull gweithredu hwn. Trafododd y Bwrdd y cynnig ac ar ôl y drafodaeth honno, cefnogodd y

penderfyniad i fynd ati i lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Anogodd y Bwrdd y dylid bod yn ofalus o ran sicrhau bod amserlen mis Mawrth yn realistig.

4.4. *Arolwg Pobl* - rhoddodd PB y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr arolwg pobl blynyddol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018 ac y rhannwyd ei ganlyniadau â staff ym mis Tachwedd.Cafwyd cyfradd ymateb o 91% a sgôr mynegrif ymgysylltu o 72% (4% yn is nag y llynedd). Darperir adroddiad manylach i'r Bwrdd yn ystod ei gyfarfod ym mis Mawrth.

4.5. *Llythyr o gyngor i'r Gweinidog* – atgoffodd PB y Bwrdd am y llythyr o gyngor a gafodd ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018 (ynglŷn â chymwysterau TGAU newydd ar gyfer y Cwricwlwm newydd). Ar y pryd, nododd y Bwrdd y caiff y llythyr ei anfon ar adeg briodol (ac felly cafodd cynnwys y drafodaeth ei dynnu o gofnodion y Bwrdd). Nid oedd y llythyr wedi cael ei anfon a barn PB oedd nad oedd ei angen mwyach o ganlyniad i'r datblygiadau sy'n mynd rhagddynt. Yn lle hynny, roedd PB yn bwriadu anfon llythyr i'r Gweinidog Iechyd yn amlinellu'r gwaith yr oedd Cymwysterau Cymru yn bwriadu ymgymryd ag ef mewn perthynas â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, gan nodi y caiff cyngor ei roi i'r Gweinidog ar ôl i ymgynghoriad cyhoeddus arfaethedig Cymwysterau Cymru gael ei gynnal yn ystod hydref 2019. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi adolygu'r llythyr (nad oedd yn seiliedig ar gyngor mwyach) a'i bod yn fodlon ar y dull gweithredu arfaethedig. Trafododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan PB a nododd y dull gweithredu.

4.6. *Grŵp Cynghori ar Ymchwil* - cadarnhaodd PB fod y grŵp wedi cyfarfod am y tro cyntaf. Roedd yr ymgysylltu a'r presenoldeb wedi bod yn dda iawn, ac roedd PB o'r farn y byddai'r grŵp yn ychwanegu gwerth at waith ymchwil y sefydliad.

4.7. *Monitro Diogelwch Bwyd* – rhoddodd JR y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd fod y gwaith o fonitro cymwysterau galwedigaethol diogelwch bwyd ar fin dod i ben, ac er bod rhai problemau wedi codi ac yn cael eu datrys gyda Chyrff Dyfarnu, roedd y cyrff wedi ymateb yn gadarnhaol iawn ac roeddent wrthi'n cydweithio i fynd i'r afael â'r pryderon. Roedd y Cyrff Dyfarnu wedi creu fforwm er mwyn gweithio gyda'i gilydd.

4.8. Rhoddodd PB hefyd y wybodaeth ddiweddaraf yn gryno am y gwaith o ddatblygu'r cynllun busnes ar gyfer 2019-20, y gwaith o fapio yn erbyn y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd, y broses o recriwtio Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a'r gwaith arfaethedig o ffurfweddu'r sefydliad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r dull o ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg;
ii. Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r dull gweithredu diwygiedig mewn perthynas â'r llythyr i'r Gweinidog Addysg ynglŷn â gwaith Cymwysterau Cymru mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru;
iii. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a diolchodd iddo am ei ddiweddariad.

5. Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol a Chyllideb Chwarter 3 2018/19

Ymunodd Kerry Price (KP) â'r Bwrdd.

Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol

5.1. Cyflwynodd JN yr adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter tri yn erbyn y cynllun gweithredol. Ddiwedd mis Rhagfyr 2018 cafodd pedwar o'r pum blaenoriaeth weithredol eu graddio'n wyrdd a chafodd un flaenoriaeth weithredol ei graddio'n goch. Y ddwy is-flaenoriaeth nad oeddent yn wyrdd ar ddiwedd y chwarter oedd is-flaenoriaeth 2.2 (Gweithredu ymrwymiadau sy'n deillio o'r adolygiad o'r sector Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant) a oedd wedi'i graddio'n goch ac is-flaenoriaeth 4.3 (Llywio gwaith blaengynllunio ar gyfer y cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru) a oedd wedi'i graddio'n oren. Roedd pwysigrwydd effaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn golygu y cafodd y flaenoriaeth gyffredinol (OP2 - Cymwysterau Galwedigaethol) ei graddio'n goch yn gyffredinol, tra cafodd yr is-flaenoriaeth Ymchwil (4.3) ei graddio'n oren ac nid yw'n effeithio ar radd gyffredinol blaenoriaeth weithredol 4.

5.2. Trafododd y Bwrdd yr is-flaenoriaethau a nododd na chafodd adroddiadau eu llunio arnynt yn flaenorol a byddent yn debygol o aros yr un peth hyd at ddiwedd y flwyddyn adrodd.

5.3. Nododd y Bwrdd hefyd y llwyddiannau, y risgiau y tynnwyd sylw atynt, a'r goblygiadau ariannol ac Adnoddau Dynol yn yr adroddiad.

5.4. Nododd y Bwrdd yr adroddiad hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2018 (chwarter tri) a diolchodd i JN am yr adroddiad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Adolygodd y Bwrdd yr adroddiad ar y cynllun gweithredol a nododd y cynnydd hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2018.

Adroddiad cyllid

5.5. Cyflwynodd KP yr adroddiad cyllid sy'n crynhoi'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter tri. Nid oedd unrhyw bwyllgorau wedi adolygu'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf am nad oedd y Pwyllgor Adnoddau na'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

5.6. Hysbysodd KP y Bwrdd, ar y cyfan, fod amrywiant bach (£17k) rhwng y gyllideb gronnus (£5.08m) a'r gwariant (£5.097m), ar ddiwedd mis Rhagfyr. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, mae tanwario o hyd yn erbyn y rhan fwyaf o brif benawdau'r gyllideb, a gafodd ei wrthbwyso ym mis Rhagfyr gan grant o £310k a hawliwyd cyn y proffil.

5.7. Nododd KP fod y rhagolwg alldro, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth ddiweddaraf o ymrwymiadau presennol a gwariannau posibl, yn rhagweld sefyllfa derfynol o tua

£7.77m, a fyddai'n golygu tanwariant o tua £266k. Roedd y Bwrdd wedi nodi'n flaenorol ei fod yn rhagweld rhagolwg alldro rhwng £7.66m a £8.12m.

5.8. Trafododd y Bwrdd yr adroddiad ariannol a nododd ei gynnwys gan gynnwys y drafodaeth agored gyda Llywodraeth Cymru. Diolchodd y Bwrdd i KP am ei adroddiad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd yr adolygiad o gyllideb chwarter tri.

6. Amcanion Cydraddoldeb

6.1. Gofynnodd HB i'r bwrdd adolygu a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2017-18 ac adolygu a rhoi sylwadau ar yr Amcanion Cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer 2019 – 2022, a dirprwyo'r cam cymeradwyo terfynol i'r Prif Weithredwr. Atgoffodd HB y Bwrdd fod hwn yn un o ofynion Rheoliadau Cydraddoldebau 2011.

6.2. Trafododd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2017-18. Cytunwyd y byddai cael eglurhad pellach ar 'fair access by design' ac asesiadau effaith cydraddoldeb, o fudd i'r adroddiad. Yn amodol ar y newidiadau hyn, cymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad.

6.3. Cyflwynodd HB Amcanion Cydraddoldeb 2019-2022 a hysbysodd y Bwrdd ei fod wedi gwneud y gwaith ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'r amcanion gydag Age Cymru, Stonewall Cymru, Remploy a Race Cymru. Cadarnhaodd HB fod pob un o'r sefydliadau wedi rhoi sylwadau cadarnhaol ar yr amcanion a'u bod am barhau â'r gydberthynas.

6.4. Trafododd y Bwrdd yr amcanion a gofynnodd am roi ystyriaeth bellach i'r mesurau llwyddiant er mwyn sicrhau eu bod yn fesuradwy. Cytunodd y Bwrdd i ddirprwyo'r cam cymeradwyo i'r Prif Weithredwr, gan ystyried trafodaeth y Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Gwnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r gwaith o gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb o 1 Medi 2017 i 31 Rhagfyr 2018.
ii. Adolygodd y Bwrdd yr amcanion cydraddoldeb newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2019 a 2022, gofynnodd am ddiwygiadau a dirprwyodd y cam cymeradwyo terfynol i'r Prif Weithredwr.

7. Trosolwg o Gyfres Arholiadau'r Gaeaf

7.1. Cyflwynodd JR y papur, a roddodd wybodaeth a oedd wedi cael ei thrafod yn fanwl eisoes yn y Pwyllgor Rheoleiddio ym mis Rhagfyr. Nododd JR fod y trosolwg o

ganlyniadau cyfres mis Tachwedd 2018 wedi'i gyhoeddi ar 17 Ionawr a bod y trosolwg o ganlyniadau a'r datganiad i'r wasg wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd ar 16 Ionawr o dan embargo. Cadarnhaodd JR y caiff y trosolwg o'r canlyniadau ar gyfer cyfres mis Ionawr ei gyhoeddi ar 7 Mawrth 2019.

7.2. Rhoddodd JR trosolwg manwl o'r canlyniadau ar gyfer cyfres mis Tachwedd 2018, a thynnodd sylw at y canfyddiad cadarnhaol, sef bod llai o gofrestriadau cynnar ar raddfa eang. Fodd bynnag, nododd fod hon yn gyfres arall lle nad oedd y patrymau cofrestru yn sefydlog.

7.3. Cadarnhaodd JR fod yr arholiadau ar gyfer cyfres mis Ionawr 2109 wedi'u sefyll ac y byddai'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar 7 Mawrth.

7.4. Diolchodd y Bwrdd i JR am ei diweddariad a gafodd ei nodi. Trafododd y Bwrdd sawl maes gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng cyfran y myfyrwyr yn sefyll arholiadau TGAU Mathemateg a Mathemateg - Rhifedd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd y diweddariad ar gyfres arholiadau'r gaeaf. Nododd y Bwrdd hefyd fod y Pwyllgor Rheoleiddio wedi trafod yr eitem yn fanwl yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2018.

8. Cod ymarfer y Bwrdd

8.1. Cyflwynodd HB god ymarfer y Bwrdd a chadarnhaodd ei fod yn bwynt arfer da yn ogystal â'r ffaith ei fod yn ofynnol ar gyfer cydymffurfio â'r cytundeb Fframwaith.

8.2. Croesawodd y Bwrdd y cod ymarfer a rhoddodd sylwadau ar gynnwys y ddogfen. Gofynnodd HB i unrhyw sylwadau pellach gael eu hanfon ati er mwyn llunio'r fersiwn derfynol cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Adolygodd y Bwrdd y cod ymarfer drafft a rhoddodd sylwadau arno.

9. Caffael Contractau: Teithio a Llety

9.1. Cyflwynodd LF yr adroddiad caffael. Tynnodd LF sylw at y ffaith bod angen cymeradwyo'r papur er mwyn dechrau gweithgaredd caffael ar gyfer contract teithio sy'n werth dros £100,000 a chymeradwyo contract a ddyfarnwyd dros £100,000 yn ôl-weithredol.

9.2. Esboniodd LF fod Cymwysterau Cymru yn adolygu opsiynau caffael ar gyfer disodli'r contract teithio busnes. Cadarnhaodd LF fod problemau wedi codi gyda'r contract a bod trefniant fframwaith amgen wedi'i nodi a gafodd ei ddyfarnu gan Wasanaethau Masnachol y Goron sy'n bodloni gofynion y sefydliad. Gofynnodd LF

i'r contract presennol gael ei ddiddymu a bod contract newydd dwy flynedd o hyd gwerth £37,000 y flwyddyn yn cael ei gynnig, gydag opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd arall gan arwaith at werth contract amcangyfrifedig o £150,000 o bosibl dros bedair blynedd. Trafododd y Bwrdd fuddiannau'r contract newydd a chymeradwyodd y gwaith o ddechrau gweithgaredd caffael i ddisodli'r contract teithio busnes presennol.

9.3. Hysbysodd LF y Bwrdd fod contract wedi'i ddyfarnu yn 2017-18 i PwC i gynnal archwiliad o seilwaith TG CBAC. Penderfynwyd parhau â'r dull gweithredu a dyfarnu contract i gynnal archwiliadau TG pellach ar gyrff dyfarnu. Esboniodd LF y rhagwelir y byddai hyn yn llai na £100,000. Fodd bynnag, roedd y cynnig llwyddiannus yn £127,749.60. Gofynnodd LF i'r Bwrdd gymeradwyo'r gwariant sy'n ddyledus i'r contract sydd y tu hwnt i'r trothwy o £100,000 yn ôl-weithredol. Gwnaeth y Bwrdd gefnogi hyn, ond gofynnodd iddo gael ei ystyried y tu allan i'r pwyllgor yn y dyfodol fel na fydd angen i'r gymeradwyaeth fod yn ôl-weithredol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Cymeradwyodd y Bwrdd i'r gweithgaredd caffael i ddisodli'r contract teithio busnes presennol ddechrau.
ii. Cymeradwyodd y Bwrdd y broses o ddyfarnu contract ar gyfer archwiliadau TG o gyrff archwilio yn ôl-weithredol.

10. Diogelwch Gwybodaeth – Trosolwg Strategol a Sicrwydd y Bwrdd

10.1. Cyflwynodd SG drosolwg o ddull gweithredu Cymwysterau Cymru o ran seiberddiogelwch. Rhoddodd y cyflwyniad sicrwydd i'r Bwrdd yn y meysydd canlynol:

- Arbenigedd diogelwch ar y Bwrdd;
- Bygythiadau a risgiau seiberddiogelwch, a sut y caiff y rhain eu rheoli;
- Yr asedau mwyaf gwerthfawr a sut y caiff y rhain eu rheoli;
- Y wybodaeth sydd ei hangen i oruchwylio risgiau seiber;
- Y broses ddilysu allanol a ddefnyddir e.e. Cyber Essentials Plus.

10.2. Trafododd y Bwrdd gynnwys y cyflwyniad a risg lleoliad canolfannau data gyda Brexit, yn ogystal â chyfrifoldeb aelodau'r Bwrdd o ran seiberddiogelwch. Diolchodd y Bwrdd i SG am y cyflwyniad cynhwysfawr a nododd ei fod wedi rhoi lefel dda o sicrwydd i'r Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd y trosolwg o ddiogelwch gwybodaeth a chyflwyniad sicrwydd y bwrdd.

11. Brexit – Ystyried Problemau Posibl i Cymwysterau Cymru

11.1. Cyflwynodd HB y papur a oedd yn cynnwys y ddogfen a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli a'i dychwelyd i Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y papur yn ystyried effaith Brexit ar Cymwysterau Cymru.

11.2. Nid oedd y Bwrdd Rheoli o'r farn y bydd Brexit yn cael effaith uniongyrchol sylweddol ar y sefydliad. Ni nodwyd unrhyw risgiau uchel mewn perthynas â staffio na chyflenwadau hollbwysig. Bydd angen gwneud mân newidiadau i'r Amodau Cydnabod, ond nid ystyrir bod y rhain yn rhai sylweddol. Bydd y brif effaith ar y sefydliad yn deillio o'r effaith ar yr economi a chyllid cyhoeddus. Mae'n bosibl y byddwn yn gweld costau rhai nwyddau yn cynyddu o ganlyniad i gyfraddau cyfnewid, ac os bydd y twf economaidd yn arafu, bydd refeniw'r llywodraeth yn gostwng ac, er gwaethaf gostyngiadau mewn taliadau i'r UE, gallai fod llai o gyllid ar gael yn gyffredinol. Nodwyd bod Cyrff Dyfarnu hefyd wedi bod yn ymgymryd â dadansoddiadau risg.

11.3. Trafododd y Bwrdd y papur a'r adroddiad effaith a chytunwyd nad oedd unrhyw beth i'w ychwanegu at y cynnwys a drafodwyd. Nododd y Bwrdd y papur.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd y papur ar effaith Brexit ar Cymwysterau Cymru.

12. Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

12.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr 2018. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2018 wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.

12.2. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod yn gyfarfod byr a gynhaliwyd ar ffurf telegynadledda. Roedd y prif eitemau a drafodwyd gan y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr yn ymwneud â'r Amodau Cydnabod ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG a diweddariad ar gyfres arholiadau'r gaeaf.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio.

13. Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

13.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 22 Tachwedd 2018.

13.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 22 Tachwedd yn ymwneud ag adolygu perfformiad y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, cyflogau staff a chylch gorchwyl y pwyllgor. Disgwylir i'r Pwyllgor gynnal cyfarfod arall ar ôl i'r wybodaeth am gyflogau staff ddod i law gan Lywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r Argymhellion:

ii. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

14. Penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r Pwyllgor

14.1. Cadarnhaodd HB nad oedd unrhyw fusnes y tu allan i'r Pwyllgor.

15. Unrhyw Fater Arall

15.1. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cofnodion cyfarfod caeedig y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Hydref ar gael ym mhecyn y Bwrdd. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ddiwygiadau i'r cofnodion.

15.2. Ni chodwyd unrhyw fater arall. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gyfrannu at y cyfarfod.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd cofnodion caeedig cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.00.

Diwedd